**Y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes**

**ADRODDIAD AR Y PROSIECT I LEIHAU'R BEICHIAU BIWROCRATAIDD AR YSGOLION**

**Diben**

1. Rhoi cyfle i'r Pwyllgor roi sylwadau ar adroddiad drafft y prosiect.

**Amseru**

2. Trefnwyd i'r adroddiad terfynol fynd gerbron y Cynulliad, i'w gymeradwyo, yn y Cyfarfod Llawn ar 10 Gorffennaf.

**Cefndir**

3. Mae'r adroddiad drafft yn edrych ar ystod eang o weithgareddau sy'n cyfrannu at y beichiau biwrocrataidd ar ysgolion. Daeth i'r canlyniad:

- Bod angen bob un o'r meysydd a aseswyd ar gyfer gwneud gwelliannau mewn ysgolion
- Bod y systemau mewn nifer o'r meysydd yn ormodol o feichus
- Na ellid dileu unrhyw faes gweithgaredd ond yn hytrach rhaid rheoli'r systemau'n well
- Rhaid lleihau'r beichiau crynswth – mae'r argymhellion a'r gweithrediadau sydd ar y gweill ym mhob maes gweithgaredd yn mynd i'r afael â hyn
- Ni ddylai'r beichiau newydd a roddir ar ysgolion ychwanegu at lefel bresennol y beichiau ond yn hytrach dylid eu gwrthbwyso drwy ddileu neu ad-drefnu'r beichiau sydd eisoes yn bodoli.

1. Mae'r adroddiad yn mynd tu hwnt i gyfrifoldebau uniongyrchol y Cynulliad. Mae'n cwmpasu materion sydd yn gyfrifoldeb Estyn, ACCAC ac awdurdodau lleol. Mae ganddo gefnogaeth y cyrff hyn – wedi ei fynegi yn achos Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg yng Nghymru
2. Bydd yr adroddiad i'r Cyfarfod Llawn yn cynnwys crynodeb gweithredol.

**Cydymffurfiaeth**

3. Mae gan y Cynulliad ddyletswydd o dan Adran 10 o Ddeddf Addysg 1996, i hybu addysg

pobl yng Nghymru. Bwriad Adrannau 40 a 85 o Ddeddf Llywodraeth Cymru yw hyrwyddo’r dyletswydd hwnnw. Trosglwyddwyd y pwerau hyn i’r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes.

**Goblygiadau Ariannol**

4. Mae gan ambell gnewyllyn o’r gweithgareddau a amlinellwyd yn yr adroddiad oblygiadau cost posibl i’r Cynulliad, Estyn neu’r cyrff a noddir gan y Cynulliad megis ACCAC. Bydd yr angen am gyllid ar gyfer pob maes gweithgaredd yn cael ei ystyried ar yr amser priodol.

**Cyswllt**

Mandy Paish, Arweinydd y Prosiect

Yr Is-adran Rheolaeth Ysgolion 2

029 2082 5485

ebost: Mandy.Paish@Wales.gsi.gov.uk